# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Hydref 2022 – Cyfrol 8– Rhifyn 1

## Enillwyr gwobrau'r sioe flodau

**Yr ardd orau:**
Richard ac Iona Davies, Hafod y Bryn

**Ffrwythau a llysiau:**
Yr arddangosyn gorau – Mair Edwards
Y nifer mwyaf o bwyntiau – Richard Davies

**Blodau:**
Yr arddangosyn gorau a'r nifer mwyaf o bwyntiau – Olwen Rowlands

**Trefnu blodau:**
Yr arddangosyn gorau – Wendy Grey-Lloyd
Y nifer mwyaf o bwyntiau – Rachel Major

**Coginio:**
Yr arddangosyn gorau – Mair Edwards
Y nifer mwyaf o bwyntiau – Rhiannon Griffith

**Pobl ifanc:**
Yr arddangosyn gorau – Penny Kinsey
Y nifer mwyaf o bwyntiau – Ralph Kinsey

**Crefft:**
Yr arddangosyn gorau – Livia Jones
Y nifer mwyaf o bwyntiau – Gwenda Marshall

**Ffotograffiaeth:**
Yr arddangosyn gorau— Julia Hughes

**Adran oedolion:**
Y nifer mwyaf o bwyntiau – Richard Davies
Hoff arddangosyn y Llywydd – Lyn Rose
Hoff arddangosyn yr Ysgrifennydd: Livia Jones

**Chwilair:** Edith Hughes a Beth Mosford Evans

**Llywydd y sioe:** Rod Williams, Rhiwbebyll Isaf



*Olwen Rowlands: enillydd y nifer mwyaf o bwyntiau yn adran y blodau*



*Lyn Rose, enillydd gwobr ffefryn y Llywydd, gyda Margaret a Rod Williams*

**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth nôl eich copi o swyddfa'r post, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

# Pytiau newyddion y pentre

***Hosbis Sant Cyndeyrn*** Bore Iau 1 Medi cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn yng Nglanrafon trwy garedigrwydd Chris a Ruth Griffiths. Gwnaed elw o £620 tuag at Hosbis St Cyndeyrn. Dyma'r tro ola i'r Bore Coffi blynyddol yma gael ei gynnal yng Nglanrafon – a hynny ers 10 mlynedd bellach! Yn ystod y cyfnod hwn llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus o £6329 tuag at Hosbis Sant Cyndeyrn. Dymuna Chris a Ruth ddiolch yn ddiffuant i bawb am eu cefnogaeth ar hyd yr amser. Fel pentrefwyr diolchwn ninnau o waelod calon i Chris a Ruth am eu haelioni ar hyd y blynyddoedd. Cynhelir y bore coffi blynyddol ym Maes y Wern y flwyddyn nesa.



***Llongyfarchiadau*** i John ac Emma, Tŷ Newydd ar enedigaeth merch fach, Molly Georgina. Hefyd i Mari a Huw, Maes Tyrnog, ar enedigaeth eu merch, Myfi Olwen, chwaer fach i Jini a Penri.

***Boreau coffi*** Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus yn y Neuadd fore Sadwrn 20 Awst. Gwnaed elw o £420 tuag at Eglwysi St Tyrnog a St Cwyfan. Diolch i bawb am y gefnogaeth.

Diolch yn fawr hefyd i bawb a gefnogodd y bore coffi tuag at Cymorth Canser McMillan – codwyd £400 tuag at yr achos teilwng hwn.

***Dymunwn*** wellhad buan i Elaine Wright, Paul Chapman ac Edith Hughes, y tri wedi bod yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion hefyd at Mark Roberts, Dinbych, sydd yn yr ysbyty.

***Pob dymuniad*** da i Gwilym, Glennydd ar ei ben blwydd yn 80 oed ac i Ian, Sgubor Wen ar ei ben blwydd yn 50.

***Criced*** Mae Alys Evans yn aelod o Glwb Criced Dinbych, ac wedi cael y fraint o gael ei dewis yn aelod o garfan merched dan 13 oed Gogledd Cymru, ac fel rhan o garfan tîm datblygu Cymru dan 12. Mae wedi cael profiadau gwych ac wedi mwynhau'r cyfle'n fawr iawn.



**Drysau Agored:** Fel rhan o ben wythnos Drysau Agored Dinbych, pnawn Sul Medi 25ain yn y Llyfrgell, bu Wendy Grey-Lloyd yn sgwrsio am hanes Robert Dudley, Iarll Dinbych, roddodd y tir a'r arian i adeiladu Neuadd y Sir (y Llyfrgell rŵan). Roedd yn agos iawn at Frenhines Elizabeth I.


J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1

Dyffryn Trading Estate

Rhyl Road

Denbigh

LL16 5SJ

01745 817676

07775 717602

# Gwasanaethau mis Hydref

**St Tyrnog: pob gwasanaeth am 11.15**

| | |
|---|---|
| 2 Hydref | Cymun Bendigaid |
| 9 Hydref | Boreol weddi |
| 16 Hydref | Boreol weddi |
| 23 Hydref | Cymun Bendigaid |
| 30 Hydref | Gwasanaeth yr Ardal Genhadu yn eglwys y Santes Fair, Dinbych am 11 o'r gloch. |

| | |
|---|---|
| 9 Hydref | 3–5pm: Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |

**Capel y Dyffryn**

| | | |
|---|---|---|
| 2 Hydref | 11.00 | Gwenda Humphreys |
| 9 Hydref | 9.45 | Parch. Andras Iago/ Diolchgarwch |
| 23 Hydref | **5.30** | Parch. Huw Dylan Jones |
| 30 Hydref | 11.00 | Parch. Andras Iago |

# Yr Ystafelloedd Coco

| | |
|---|---|
| Llun 3 | Trefoil Guild |
| Mawrth 4 | Clwb Llyfrau 10am |
| Mawrth 18 | Clwb Llyfrau 10am |
| Mercher 19 | Tuesday Club 2pm |
| Mawrth 25 | Pwyllgor *Llais Llandyrnog*,7pm |

***I logi'r Ystafelloedd Coco, cysylltwch ag Emily Williams, emilylloyd1@tiscali.co.uk.***

# Neuadd y Pentre

| | |
|---|---|
| Sadwrn 1 | Grŵp crefftau 9.30 – 3pm |
| Llun 3 | Brownies, 5.30 – 7pm |
| Mawrth 4 | Sefydliad y Merched 7 – 9pm |
| Sadwrn 8 | Bore Coffi: Brownies |
| Llun 10 | Brownies, 5.30 – 7pm |
| Mercher 12 | Undeb y Mamau 2 – 4pm |
| Sadwrn 15 | Arwerthiant bwrdd: elw tuag at *Prostate Cancer UK* 1 – 4pm |
| Llun 17 | Brownies, 5.30 – 7pm |
| Mercher 19 | Cymdeithas Hanes – Cyfarfod Blynyddol 7pm. Am 7.30: Yr Hybarch Bernard Thomas – 'Atgofion 50 mlynedd yn y weinidogaeth' |
| Gwener 21 | Eisteddfod Llandyrnog 5pm |
| Llun 24 | Brownies, 5.30 – 7pm |
| Sadwrn 29 | Bore coffi: Eglwysi Llandyrnog a Llangwyfan |

***I logi'r neuadd, Mrs Wyn Wilson – 01824 790447***

# Yr Eisteddfod yn ei hôl: dydd Gwener, Hydref 21ain

Hei blant a phobl ifanc – pwy sydd eisiau canu, adrodd, arlunio, barddoni neu wneud graffeg gyfrifiadurol, ac, efallai, ennill ychydig o bres poced?

Ar ôl tair blynedd hir a thrafferthus, mae'n Heisteddfod fach leol ni yn Llandyrnog yn ôl. Dyma un o'r digwyddiadau sy'n dangos y diwylliant Cymreig ar ei orau yn y pentref. Bydd plant Ysgol Bryn Clwyd a Gellifor ac ysgolion cynradd y fro a phobl ifanc uwchradd yn cystadlu ar lwyfan Neuadd Llandyrnog. Bydd gwobrau hael i'w cael mewn gwahanol gystadlaethau – llefaru, canu, canu cerdd dant, a chwarae offeryn cerdd. Bydd cystadlaethau cartref hefyd – llenyddiaeth, barddoniaeth, arlunio, a graffeg gyfrifiadurol.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod gyntaf yn Llandyrnog fis Mawrth 1958, a hynny drwy'r pnawn tan yn hwyr y nos. Swllt oedd pris mynediad yn y pnawn, ac roedd y cystadlaethau llwyfan yn debyg iawn i rai yn yr Eisteddfod eleni, heblaw am ambell gystadleuaeth, e.e. dros 16 oed Gwaith coed, – gwneud ysgol bren dim mwy na 5 troedfedd o uchder! A dan 16 – i ferched( yn unig!) – gwnïo "underslip".

Peidiwch â phoeni gormod am astudio'r Rhaglen eleni os ydech chi am gystadlu ar y llwyfan! Ar ôl cyfnod mor hir, mae aelodau'r Pwyllgor wedi rhoi rhwydd hynt i gystadleuwyr ddewis eu darnau llefaru, canu, cerdd dant ac offerynnol eu hunain. Daw hyn â mwy o blant fyth i gymryd rhan eleni, ac, o'r diwedd, bydd cyfle i ddatblygu hunan hyder. Gobeithio y gwelwn ni hefyd o leiaf 500 o wahanol ddarnau gwaith cartref fel yn 2019.

Felly cofiwch y dyddiad – Hydref 21ain am 5 o'r gloch. Am gopi o raglen yr Eisteddfod neu unrhyw ymholiad arall cysylltwch â'r ysgrifenyddion Iona Davies – ionapari@hotmail.co.uk, (01824 790484) neu Lona Meleri lonamel@yahoo.co.uk (07734 408608).

# Taith Chwarel Penrhyn

Pan soniodd Anwen am Chwarel Penrhyn, dyma fy stumog yn troi. O na – dydi hi ddim wedi prynu *'profiad y weiren zip'*! Wrth gwrs, gan 'mod i mor gwrtais, allwn i ddim gwrthod. Ond mewn rhyw sylw ffwrdd â hi dro'n ôl, mi ddudes, o ran hwyl, na faswn i byth yn mynd i hedfan fel 'deryn 100mya ar weiren gaws a dim ond clip papur go gry' rhyngdda i ac abergofiant! Dim ffiars!!' Ateb Anwen oedd ei fod o ar agor ers 2013, a doedd 'na neb wedi syrthio i lawr eto. Wel mae 'na dro cyntaf i unrhyw beth a doeddwn i ddim am fod yn Llyfr Recordiau Guinness am y rhesymau anghywir!

Ond i fod yn deg ag Anwen, roedd hi wedi dewis profiad dipyn mwy diogel a mwy wrth ein bodd – taith dywys o gwmpas y chwarel mewn hen lori'n perthyn i'r fyddin oedd wedi ei haddasu, a'i hochrau'n agored. Mae ganddyn nhw ddigon ohonyn nhw yno, gan amlaf, i gario pobl y weiren zip i fyny ochr y mynydd i gael eu gosod ar fwrdd, rhwymo eu traed a'u dwylo fel ieir, a rhoi hwb fawr iddyn nhw. Pob lwc iddyn nhw!

Erbyn heddiw, lle chwarae â golygfeydd anhygoel sy' 'ma. Ond rhaid peidio ag anghofio'r gorffennol anodd a'r caledi ddioddefodd y 3000 o weithwyr yn y chwarel pan oedd hi ar ei hanterth yn ystod teyrnasiad y teulu Pennant o 1770 hyd 1963. Gwerthwyd hi i McAlpine wedyn ac roedd 1500 o weithwyr yno hyd yn oed bryd hynny. Dim ond 70 sy'n gweithio yno bellach. Bu'n tywysydd Steve yn gweithio i McAlpine pan yn ŵr ifanc, felly ffeithie moel gawson ni, nid ffrwyth dychymyg.

Amser hynny, doedd hi ddim gwell na chaethwasiaeth arnyn nhw – ond wedi'i gyfreithloni. Roedd gan y teulu Pennant blanhigfeydd siwgwr yn Jamaica a bydden nhw'n rhoi'r un egwyddorion yn union ar waith yng Nghymru. Rhoeson nhw'r gorau i'w buddiannau yn Jamaica yn y 1930au. Mewn cyfarfod o 2000 o ryddfrydwyr yn 1903 yn ystod y streic chwerw a lusgodd am 3 mlynedd (wna i sôn am hynny'n nes ymlaen), dywedodd Lloyd George yn ei anerchiad fod, '*y chwarel wedi ei chloddio o dir comin oedd wedi syrthio*



*i ddwylo perchennog caethwasiaeth cyfoethog yn y 19eg ganrif, ac yn cael ei rhedeg ar egwyddorion caethwasiaeth byth ers hynny'*.

Stopiodd y lori tu allan i hen siediau prentis, lle'r eglurodd fod bechgyn 8 oed yn cael eu hanfon i weithio yn y chwarel er mwyn helpu'r teulu – tri mis yn y sied ac yna'n syth at wyneb y graig. Roedd yn rhaid iddyn nhw roi pob ceiniog o'u cyflogau prin i'w mamau i gynyddu rhywfaint ar incwm y teulu – dim ond digon i gael bwyd ar y bwrdd.

Rhaid cofio bod y chwarelwyr ar drugaredd perchnogion y chwarel ynglŷn â phopeth – roedd yn rhaid iddyn nhw dalu am eu hoffer, talu i'w miniogi a thalu am ffiwsys a ffrwydron. Doedd cael eich lladd wrth danio ffiwsys ddim yn beth anghyffredin – fedrai'r chwarelwyr ddim fforddio ffiwsys hir, ac felly'n ei mentro hi gyda'r ffiwsys byr, a thalu'r pris eithaf.

8000 oedd nifer poblogaeth Bethesda yr adeg honno, ond, yn ôl cofnodion, dim ond dau blismon oedd yna, a 47 tafarn – y cwbwl ar yr un ochr i'r stryd fawr. Ond, rhaid i ni gofio mai cwrw go wan oedd yn cael ei werthu – roedd o'n saffach i'w yfed na'r dŵr.

Stad Penrhyn oedd perchennog un ochr i'r Stryd Fawr, a Stad Cefnfaes oedd perchennog yr ochr arall – un yn annog codi tafarnau a'r llall yn ffyrnig yn eu herbyn. Dydw i ddim yn siŵr p'run oedd p'run, ond os gyrrwch chi'ch car lawr Stryd Fawr Bethesda, mae'n amlwg erbyn hyn, oherwydd dim ond rhyw hanner dwsin sy ar ôl ac maen nhw i gyd ar yr un ochr i'r ffordd.

Beth bynnag, yn ôl at y chwarel. Wrth

# Taith chwarael penrhyn: parhad

ddynesu at y copa, cawsom olygfeydd anhygoel. Gwelodd Anwen ar y gorwel res o fythynnod a oedd yn eitha’ pell o’r chwarel, ond hyd yn oed yn bellach o Fethesda – pob un â darn o dir, a holodd amdanyn nhw. Yn ôl Steve ein tywysydd, ‘*tai bradwyr*’ oedd y rhain.

Tua diwedd y streic fawr 1900–1903, roedd rhai gweithwyr wedi eu gorfodi i fynd yn ôl i’w gwaith oherwydd newyn, tlodi neu falle deyrngarwch, a thorri’r lein biced. Felly, byddai eu bywydau, a bywydau eu teuluoedd wedi bod yn annioddefol yn ôl yng nghanol Bethesda. Heddiw mi fasen ni’n sôn am y drosedd yn un fyddai’n ‘peryglu bywyd’. Felly, dyma’r Pennantiaid yn eu gwobrwyo efo tŷ teras ac acar o dir, er mwyn cynyddu eu hincwm. Pan orffennodd y streic, cafodd pob un ei ddyrchafu’n ‘stiward’, derbyn yr agen orau yn y graig, a dewis pa deuluoedd fyddai’n gweithio iddyn nhw. Roedden nhw’n bobol bwerus ond amhoblogaidd iawn.

Mi glywes i fod ’na ddrwgdeimlad yn dal i fod rhwng rhai teuluoedd ym Methesda hyd heddiw, a phan wnes i holi Steve, rhoddodd un edrychiad oedd yn cadarnhau hyn – gwir bob gair! Ar ddiwrnod arbennig i gofio diwedd y streic fis Tachwedd 1903, mae teuluoedd yn dal i roi posteri yn eu ffenestri ‘*dim bradwyr yn y tŷ hwn*’ – cant ac ugain o flynyddoedd yn ddiweddarach!

Roedden ni wedi cyrraedd copa’r chwarel a gallen ni weld yr ardal waith presennol. Mae llechi Penrhyn yn dal i gael eu cloddio a’r llechi’n cael eu cydnabod y rhai gorau yn y byd. Oes, mae llechi o Tsieina, Canada a Sbaen ar gael, a phob un ag ansawdd a lliwiau unigryw.

Mae gen i gyfrinach i rannu efo chi – un o fy niddordebau ydi edrych ar lechi tai! Sawl tro dw i wedi crwydro’n bell i lawr strydoedd yn edrych ar lechi tai ac yn trio rhannu’r cyffro  efo Anwen – trist ynde! Mae llechi Sbaen yn iawn yn Sbaen – ‘the *rain in Spain*’ ’chadael nhw – ond fydden nhw ddim yn para’n hir yng Nghymru. Dim ond 200 miliwn



mlwydd oed yden nhw o’u cymharu â llechi Bethesda sy’n 600 miliwn blwydd oed

Gyda llaw, mae’r rhan fwyaf, os nad y cwbwl, o lechi Penrhyn yn cael eu hallforio a’u defnyddio mewn prosiectau mawreddog ar draws y byd. Mae’r farchnad yn cael ei rheoli gan fasnachwyr llechi a nhw sy’n gosod y prisiau. Daeth rhai llechi o chwarel yn Quebec, Canada i’r farchnad tua 2005. Fe’u profwyd a chanfod eu bod o’r un wythïen â rhai'r Penrhyn – cyn adeg ffurfio môr Iwerydd. Felly, roedd McAlpine wedi prynu’r chwarel ac yn berchen arni o 1963 hyd 2007, er mwyn gwneud yn siŵr na fyddai’r pris yn gostwng!!!!

*Breedon* ydi perchnogion presennol y chwarel, cwmni chwarel uchel ei barch – maen nhw’n berchen ar chwareli Cwt y Bugail, Oakley a Phen yr Orsedd hefyd.

Ta waeth, roedd amser i feddwl ar y daith yn ôl at y man cychwyn – profiad chwerwfelys. Allwn i ddim peidio meddwl am y tadau ers talwm a’u breichiau dros ’sgwyddau’r bechgyn, yn cerdded adre ’rôl shifft ddeuddeg awr, yn oer, gwlyb, blinedig a newynog, i bryd o fwyd pitw.  A meddyliwch, falle wedi cael ‘dêl’ wael gan y *Stiward* a heb wneud llawer o arian chwaith, ac yn edrych ar Gastell Penrhyn, cartref y perchnogion, y teulu Pennant – wedi ei amgylchynu â wal frics anferth o amgylch y stad i ‘*gadw’r ffesantod mewn a’r tlodion allan’*!

*Bryn Davies*

# Gemau'r Gymanwlad



Fy enw i yw Beca Haf Mosford Evans ac rwyf yn aelod o Gôr Dyffryn Clwyd gyda Ceri Roberts yn ein harwain. Cawsom y fraint o berfformio ar ddiwrnod cyntaf Gemau'r Gymanwlad yn Birmingham ar ôl dod yn fuddugol mewn cystadleuaeth Côr S.A.T.B yn Eisteddfod yr Urdd, Dinbych eleni.

Roeddem fel côr yn trafeilio i lawr ar y bws i'r Gemau. Roedd yr awyrgylch yn gyffrous a theimlad o falchder dros ein gwlad. Roeddem yn perfformio yn Nhŷ Tîm Cymru fel rhan o baratoadau'r athletwyr cyn i'r cystadlu ddechrau'n swyddogol. Canom y gân enillom yn yr Eisteddfod sef *Un Ydym Ni* a'r anthem Genedlaethol pan oedd yr holl athletwyr yn ymuno i ganu. Ar ôl perfformio yn Nhŷ Tîm Cymru, aethom yn ôl ar y bws i ganu yng nghanol Birmingham yn ymyl tŵr y cloc ac roedd pobl wedi synnu bod Côr o Gymru wedi dod i ganu yno.

Roedd yn deimlad arbennig cael gwybod ein bod ni wedi cynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad a gwybod mai ni oedd yr unig gôr oedd wedi cael ein dewis i wneud hynny. Roedd yn anrhydedd enfawr gallu perfformio o flaen yr holl athletwyr talentog a chael gwrando ar araith gan Anwen Butten, Capten Tîm Cymru, cyn i'r wythnos fawr gychwyn.

**Oriau agor Swyddfa'r Post**

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**

**9am–12pm, 2pm–5pm**

**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**

**Rhifau Ffôn Defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Rysáit

*Cynhwysion*



225g/8 owns margarîn meddal
175g/6 owns siwgr crai Muscovado
200g/7 owns triog du
300g/10 owns blawd codi
2 lwy de powdwr codi
1 llwy de sbeis cymysg
1 llwy de pupur Jamaica mâl
4 wy fferm
4 llwy fwrdd o laeth
3 darn o fonion sinsir (mewn jar), wedi eu malu'n fân

**Ar gyfer yr eisin**

75g/2½ owns siwgwr eisin, wedi ei hidlo
3 llwy fwrdd o surop bonion sinsir o'r jar

*Dull*

1. Torrwch bapur pobi siâp petryal i ffitio gwaelod ac ochrau tin neu hambwrdd pobi 30 × 23 × 4cm/12 × 9 × 1½ modfedd. (Os ydech chi'n defnyddio tun pobi 15 ×10 modfedd, cynyddwch y cynhwysion 50%)
2. Irwch y tun, ei leinio â'r papur, a'i wthio'n ofalus i gorneli'r tun.
3. Cynheswch y pobty ymlaen llaw i 160 °C/ 325 °F/Nwy 3.
4. Mesurwch yr holl gynhwysion ar gyfer yr hambwrdd pobi, eu gosod mewn powlen fawr a'u cymysgu'n dda am 2 funud efo llwy bren neu ddefnyddio cymysgwr trydan llaw (y ffordd orau!). (Mae'n anodd pwyso triog yn gywir gan ei fod yn glynu. Rhowch o ar dop y siwgr i osgoi hyn.)
5. Rhowch y cymysgedd yn y tun sy' wedi ei baratoi, a chrafu ochrau'r bowlen blastig a gwneud y top yn wastad efo sbatwla blastig.
6. Rhowch yn y popty am 35-40 munud, neu nes bod y gacen yn bownsio'n ôl yn y canol wrth ei wasgu'n ofalus gyda bys. Gadewch i'r gacen oeri ychydig, yna ei thynnu yn ofalus o'r tun gan lacio'r papur o ochrau'r tun. Rhowch hi ar rac i oeri'n iawn, a chael gwared â'r papur leinin.
7. Sleisiwch y gacen yn ddarnau sgwâr.
8. Er mwyn gwneud yr eisin, cymysgwch y siwgwr eisin a'r surop mewn powlen fechan nes ei fod yn llyfn. Dylai fod yn ddigon trwchus i'w beipio heb wasgaru gormod. Gallwch adio mwy o siwgwr eisin os oes angen.
9. Addurnwch bob darn fel gwe pry' copyn. I wneud hyn, arllwyswch yr eisin naill ai i fag peipio, neu ddefnyddio bag brechdan plastig o ansawdd da, a thorri twll bychan yn y gornel. Peipiwch bedair llinell syth ar draws y gacen i wneud siâp seren, ac yna eu cysylltu â llinellau crymion. Gadewch i'r eisin setio cyn ei thorri a gweini! Mwynhewch!

*Fran Williams,*
*Helenfa*


GLYN EVANS AUTOCLINIC
Canolfan Trwsio Ceir
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT
TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU
CEIR I'W BENTHYG
GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR
01745 815141
07808970364



# Hanesion Hazel

Mis Hydref ydi'r amser gorau i weld byd natur yn newid o wisg yr haf i sblash o liwiau llachar tymor yr hydref! Mae'n amser hefyd i edrych nôl ar bob methiant a phob llwyddiant – be' na fyddwch chi eisiau tyfu eto, a be' fydd yn bendant ar eich rhestr siopa hadau. Mae'r cynhaeaf wedi cyrraedd, y 'sguboriau'n llawn a llawer o waith diolch am 'ffrwythau a chnydau ein llafur'. Amser prysur i bawb; rhaid meddwl am gompostio sofl y cnydau, cadw hadau, rhewi a gwneud jam a phicls i'w cadw. Dyma'r amser hefyd i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesa' – mae cael llwythi o gatalogau drwy'r post yn help garw!

Mae cadw hadau yn llawer rhatach na phrynu o unrhyw gatalog – planhigion am ddim wrth gwrs! Hwyrach mai'r hadau hawsa' i'w trin ydi'r ffa dringo. Gadewch ambell i fasgal ar y planhigyn i sychu yn y gwynt ac wedyn eu hel cyn iddi ddechrau rhewi. Os oes glaw ar y ffordd, rhowch y masglau ar hambwrdd a'u gadael i sychu mewn lle go gynnes. Storiwch nhw mewn cynhwysydd wedi'i selio, neu fag papur, yn barod erbyn y gwanwyn. Cofiwch roi label ar bob peth. Gallwch fynd ati i gadw pob math o hadau. Dw i am drio cadw hocys y gerddi ges i gan ffrind eleni – er bod yr hadau wedi mynd dros amser cadw mi gês i sioe o flodau pinc golau hyfryd arno!

Mis Hydref ydi mis swyddogol dechrau tymor afalau'r DU, ac ers y 1990au, daeth 21ain o Hydref yn Ddiwrnod Dathlu'r Afal. Gan fy mod i'n ferch o Gaint, mae afalau wedi bod yn rhan o hanes fy nheulu erioed. Mi ddaru ni symud i'r gogledd pan oeddwn i'n ifanc iawn, ond byddai fy rhieni'n hoff o sôn am afalau a hopys Caint oedd yn tyfu o gwmpas *Sevenoaks* lle'r oedden ni'n byw. Yn ystod yr ail ryfel byd, byddent yn helpu efo'r cynhaeaf â cheffyl a throl, a'r troliau'n llwythog bob tro.

Ar y gwrych ym mhen draw'r ardd, mae planhigyn hopys gwyllt yn tyfu. Wel, dwi'n meddwl ei fod o'n wyllt; falle ei fod wedi cael ei blannu yno gan gyn-berchennog y fferm i'w ddefnyddio fel meddyginiaeth neu ar gyfer cwrw (dwi'n ffafrio'r ola'!). Mae'n blanhigyn gwydn dros ben ac mae'r tendriliau'n lapio eu hunain yn glocwedd am unrhyw beth sydd o'u blaen yn y gwrych - hyd yn oed y peiriant torri gwrych!



Mae'r hopys yn rhywogaeth eithaf newydd yn y Deyrnas Unedig. Cawsant eu cyflwyno yn y 14 ganrif o Ewrop, lle'r oedd yr Iseldirwyr yn eu defnyddio i roi blas ar eu cwrw. Drwy gydol hanes, defnyddiwyd yr hopysen i drin afiechydon y stumog a'r coluddyn, torri dannedd mewn babis (er dim heddiw!), a phroblemau cysgu.  Mae rhai pobl yn defnyddio clustogau hopys a lafant i gael noson dda o gwsg.

Wel, am flwyddyn i fyny ac i lawr, a'r haf hir wedi bod yn her i bawb ohonom. Mae ein gerddi a chefn gwlad wedi diodde'n go arw. Welwn ni ddim effeithiau'r haf sych yn iawn am fisoedd lawer, a bydd rhai o'n coed, llwyni a phlanhigion yn siŵr o ddiodde dros y gaeaf. Doedd fy metys i'n bendant ddim yn mwynhau'r haf poeth – dim ond crebachu a llosgi i ffwrdd. Mae'r ffa dringo wedi aeddfedu'n hwyr iawn, a dim ond yn cynhyrchu ffa pan ddaeth glaw fis Medi.  Ond

# Hanesion Hazel: parhad

o'r ochr arall, rydw i wedi cael cnwd toreithiog o domatos, ac erbyn hyn, maen nhw wedi eu rhewi mewn potiau piwrî erbyn y gaeaf. Mae cobiau india-corn hefyd yn llawn sudd – rhaid eu bwyta cyn i'r adar eu gweld!

Pethau i gadw golwg arnyn nhw fis yma - mwyar duon ac eirin tagu ar y gwrychoedd. Ffrwyth y ddraenen ddu ydi'r eirin duon, ac maen nhw'n eirin bach gyda sglein piws-glas deniadol. Maen nhw'n rhy siarp i fwyta'n syth o'r gwrych ond yn rhagorol wedi eu melysu a'u defnyddio i roi flas ar jin - yn ôl y sôn!

Hazel

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446
*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*
*Neu gadewch neges ar Facebook*


**Blue Hand Mowers**

**Repair and servicing of all garden machinery:**
**Lawn mowers and lawn tractors**
**Chain saws**
**Hedge cutters**
**Strimmers**
**Disc cutters**
**Quad bikes**
**Leaf blowers**
**Hand tools**

**Collection and delivery service available**
**Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google**
**www.bluehandmowers.co.uk**
**enquiries@bluehandmowers.co.uk**
**☎0775 20 35 462**


# Cynt y cwrdd dau ddyn na dau fynydd

Mae'n siŵr bod rhyw gyd-ddigwyddiad yn dod i ran bawb rywbryd mewn bywyd, ond dyma chi gyd-ddigwyddiad go ryfeddol!

Roedd Rhys Ellis, Gader Goch wedi trefnu gyda'i ffrindiau i fynd ar wyliau i'r Eidal. Gan fod ganddyn nhw ddiddordeb arbennig mewn gweld llefydd amlwg yn ystod yr Ail Ryfel Byd, aethon nhw i dref o'r enw *Cassino*. Ddechrau 1944, roedd yr Almaenwyr wedi creu ffosydd ar ben *Monte Cassino* a bu sawl brwydr ffyrnig a cholledion mawr o gwmpas y mynydd hwn. Ar ôl ychydig o ddyddiau, aethon Rhys a'i ffrindiau 'mlaen i gerdded yng nghyffiniau *Anzio* ar yr arfordir, lle glaniodd y Cynghreiriad i ddechrau, cyn adennill *Monte Cassino* a gwthio ymlaen i Rufain. Bu brwydro gwaedlyd yma hefyd.

Ar Fedi 16eg, penderfynodd y criw gerdded o *Anzio*, ar hyd yr arfordir, i'r dref agosaf, *Nettuno* – lle arall a welodd ymladd ffyrnig yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Heb yn wybod i Rhys, yn y dref honno mae Elen, Y Berth yn byw gyda'i theulu ers dros ddeng mlynedd – un o'i ffrindiau bore oes yn Llandyrnog.

Ar ôl y daith gerdded, penderfynodd Rhys a'i ffrindiau y byddai swper yn Nettuno'n syniad da, cyn troi'n ôl am Anzio.

Pwy feddyliech chi oedd yn dod ar drot, i'r union *ristorante* roedden nhw ar fin ei adael, i gyfarfod â'i ffrindiau? Ia, 'dech chi'n iawn, Elen! Gallen nhw fod wedi mynd i o leiaf ddau ddwsin o *ristorante*s yn y dref, a galle'r grŵp fod wedi hen fynd cyn i Elen ddod!! Mae ychydig o ôl y sioc a gafodd y ddau i'w weld ar wynebau'r ddau yn y llun! Bu sgwrsio a chwerthin braf wedyn!!!



# Gêm anrhydeddu Derry Morris

Dydd Sul Gŵyl y Banc mis Awst, cynhaliwyd gêm bêl-droed arbennig rhwng Cewri 90au Llandyrnog United â Chewri 90au Tref Dinbych ar Gae Nant, i anrhydeddu chwaraewr oedd wedi cynrychioli'r ddau glwb gyda chlod – y bytholwyrdd Derry Morris. Daeth rhai o sêr gorau Dyrni'r 90au wyneb yn wyneb â mawrion Dinbych o'r un cyfnod am y tro cyntaf ers blynyddoedd yn y gêm gyfeillgar a gynhaliwyd yng Nghae Nant.

Mae mwyafrif pêl-droedwyr 55 oed wedi rhoi'r gorau i chwarae'n gystadleuol ers blynyddoedd, ond roedd Derry'n dal i chwarae i Landyrnog yn Haen 4 ddiwedd y tymor diwethaf. Bu ei wasanaeth, nid yn unig i *Landyrnog United*, ond i bêl-droed lleol yn gyffredinol, yn haeddu'r holl glod a dderbyniodd ar y diwrnod bythgofiadwy yma. Ar ddechrau'r gêm, mi ddaeth i'r maes drwy ganol gosgordd er anrhydedd!

Er mai amddiffynnwr oedd o yn ei flynyddoedd olaf, fe wnaeth Derry ei farc fel blaenwr. Roedd ei allu i benio'r bêl yn anhygoel – gallai sgorio goliau o unrhyw ongl. Roedd ei gryfder a'i sgiliau gyda'r bêl yn debyg i rai'r enwog Mark Hughes! Roedd ganddo'r natur iawn fel chwaraewr, a does neb yn siŵr faint o goliau sgoriodd o, ond mae'r gôl sgoriodd o yn Ffeinal Cwpan y Llywydd 1991–92 yn aros yn y cof! Roedd o'n chwarae ym Mharc Canol, Tref Dinbych, i dîm Llandyrnog yn erbyn Llanelwy – y gelyn pennaf bryd hynny! Ym munud ola'r gêm, derbyniodd y bêl yn bell i'r chwith yn ymyl y 'stafelloedd newid a'i chicio'n gelfydd i gefn y rhwyd, ac ennill y gwpan. Roedd Derry wedi'i hanelu hi mor dda, trodd at y dorf i ddathlu cyn i'r bêl daro'r targed! Dyna ddangos doniau amrywiol Derry o sgorio goliau – nid dim ond o fewn y cwrt cosbi.

Diolch arbennig i'r canlynol: Jimmy McNally am drefnu'r digwyddiad; y rheolwyr Russell Pearce, Bill Dawson, Pim McNally; y dyfarnwr, Peter Barrow; yr holl chwaraewyr a phawb gyfrannodd at yr elusen. Diolch yn enwedig i Daniel Morris (trwy Elis Morris) Bwtsiar a Tom Moore, *Henllan Bakery* am gyfrannu cynnyrch.

Roedd gêm dydd Sul yn anrhydeddu chwaraewr arbennig, ac mae Derry wedi penderfynu y bydd y £2000 a gasglwyd yn mynd at Canser y Prostad DU.



# Priordy Llanddewi Nant Hodni



Mae adfail yr hen briordy 900 oed yng nghesail y Mynydd Du, ac mewn cornel gudd, anghysbell yn Nyffryn Ewias - hanner ffordd rhwng Y Fenni a Chapel y Ffin. Mae'n hawdd gweld, o'r olion helaeth yma, fod Llanddewi Nant Hodni wedi bod ymhlith adeiladau canoloesol gwychaf Cymru.

Bu Gerallt Gymro yn aros yno ar ei daith drwy Gymru yn y ddeuddegfed ganrif, ac yn nodi bod rhyw ysbryd o arwahanrwydd a myfyrdod yn perthyn i'r lle, ac mae hynny'n parhau hyd heddiw.

Cewch y teimlad bod adfeilion y priordy yn lapio amdanoch wrth eistedd ar fôn un o'r hen bileri sy'n brigo i'r wyneb. Roedd llawer o gerddwyr Clawdd Offa'n mynd a dod am orffwys ac yn crwydro o gwmpas yr adfeilion. Mae hen lety'r Abad wedi ei addasu bellach yn westy 5 seren, ac mae'r bar a'r bwyty o fewn crypt bwaog. Yn ddiweddar, buom yn aros yno am ddwy noson. Mae'n lle cyfeillgar a'r staff bob amser yn barod i'ch helpu gyda gwên - mae'r bwyd a'r croeso yn hyfryd hefyd. Mae digonedd o risiau serth a throellog i'w dringo yno!

Does dim wi-fi, dim ffonau, dim teledu, dim signal - dim ond lle i enaid gael llonydd! Mae'n ddihangfa go iawn o hwrli bwrli bywyd bob dydd ac mae'n f'atgoffa o eiriau emyn poblogaidd Saesneg David Evans a gyfieithwyd i'r Gymraeg – '*Distewch, cans mae nerth yr Arglwydd Iôr yn symud yn ein plith*'. Mae'n eich tynnu chi'n ôl, a gyda gobaith, cawn gyfle i fynd yno eto – gobeithio!

*Ruth Griffith*

## Llan Llanast

Croesawyd pawb yn ôl i Lan Llanast ym mis Medi ar ôl yr haf. Fel Eglwys ryden ni wedi ein gwobrwyo â *Gwobr Eglwys Eco* – gwobr efydd i Eglwys Llandyrnog, a gwobr arian i Eglwys Llangwyfan. Felly, yn Llan Llanast, dysgom ni sut i ofalu am fyd Duw a gwnaethom ni lawer o waith crefft ynglŷn â bygs ac ieir bach yr haf. Gwnaethom ni dai bwydo adar a gwesty bygs moethus. Hefyd atgoffa'n gilydd ein bod ni i gyd yn gyfrifol am edrych ar ôl creaduriaid Duw, a bod yn rhaid i ni fod yn garedig tuag at anifeiliaid, planhigion a phobl eraill.

Bydd y cyfarfod nesa 9fed Hydref, ac mae croeso cynnes i bawb – plant i ddod ag oedolyn gyda nhw.

*Mary Steel*



**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Ysgol Bryn Clwyd

Mae’n ddechrau blwyddyn ysgol arall ac roedd y plant yn gyflym wrth eu gwaith ar eu prosiectau cyffrous newydd. Mae’r plant iau a’r babanod wedi bod yn mwynhau’r ardaloedd awyr agored newydd sydd wedi’u hadeiladu dros yr haf. Mae hyn yn golygu, beth bynnag fo’r tywydd, y gall athrawon gynllunio gweithgareddau dysgu awyr agored ar gyfer eu dosbarthiadau. Bellach mae gan ardal y babanod adran laswellt yn eu hystafell ddosbarth awyr agored ac mae gan y plant iau ardal ar gyfer dysgu annibynnol. Mae’r ysgol hefyd yn ddiolchgar iawn am set o lenni ar gyfer y llwyfan coffa.

**Y dosbarth iau**

Mewn mathemateg maen nhw wedi bod yn dysgu am wahanol fathau o drionglau ac yn gwirio a ydy onglau yn fwy neu’n llai nag ongl sgwâr.



Maen nhw hefyd wedi cymryd rhan mewn darllediad byw o fenter Gydweithredol Cerddoriaeth Sir Ddinbych.

Mae gan y plant iau le newydd ‘Darllen er mwyn pleser’ yn eu dosbarth. Maen nhw’n awyddus i ddechrau trafod yn eu clwb llyfrau *The Witches* gan Roald Dahl a *The Haunting of Aveline Jones* gan Phil Hickes. Mae hyd yn oed te llysieuol a diodydd oer ar gael!



**Y babanod**

Y pwnc newydd ydy ‘Deinosoriaid’. Mae’r plant bellach wedi’u swyno gan ffosilau ac wedi bod yn hela ffosilau.


DBP

Denbigh Building Plastics

SUPPLIERS & INSTALLERS

U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849

**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Medi Cyngor Cymuned Llandyrnog

Roedd naw aelod o'r un ar ddeg yn bresennol ac roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys:

- Maes parcio Maes Llan – mae'r golofn a'r golau wedi'u gosod ond heb eu cysylltu eto.
- Trosglwyddwyd mater y parcio anystyriol y tu allan i Oliver's Row i'r plismon cymunedol.
- Penderfynwyd dyrannu swm o arian yng nghyllideb y flwyddyn nesaf i gyfrannu tuag at arolwg o anghenion y gymuned. Cadwyn Clwyd bydd yn hwyluso hyn.
- Nodwyd nad yw'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am yr hysbysfwrdd y tu allan i'r eglwys. Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych roddodd yr hysbysfwrdd i'r pentre.
- Hysbysfwrdd Llangwyfan – mae hwn ar y gweill ac mae ceisiadau wedi'u gwneud am nawdd gan fusnesau lleol.
- Project y siop gymunedol – cafwyd gwybod bod ceisiadau am grantiau wedi'u cyflwyno. Mae angen rhagor o gyfarwyddwyr i gynnal y momentwm.
- Roedd y Cynghorwyr Griffith a Butler wedi bod i Seremoni Proclamasiwn y Brenin yn Rhuthun, 11 Medi.
- Pont Glan y Wern – mae swyddogion priffyrdd ac aelodau cynghorau lleol wedi cyfarfod ac mae adroddiad cynhwysfawr wedi'i baratoi. Ond oherwydd diffyg adroddiadau am ddigwyddiadau arni, y farn oedd na ddylai gwaith diogelu'r ffordd na gwaith arall gael blaenoriaeth.
- Roedd pryderon difrifol am gŵn yn baeddu caeau chwarae Cae Nant. Gofynnir i bawb fod yn wyliadwrus ac os ydych yn gweld achos o gi yn baeddu, dywedwch wrth eich cynghorydd lleol ar unwaith.
- Hefyd roedd pryderon am yr arfer gwrthgymdeithasol o hongian bagiau baw cŵn ar ffensys a gatiau yn ardal Llangwyfan. Eto gofynnir i bawb fod yn wyliadwrus a sôn am unrhyw achos wrth eich cynghorydd lleol ar unwaith.
- Mynegwyd pryderon am gyflwr rhai tai gwag yn yr ardal – Sgwâr yr Eglwys yn benodol. Gan nad yw'n amlwg pwy sydd biau'r tai, penderfynwyd gofyn i swyddog tai gwag Cyngor Sir Ddinbych ymchwilio i'r mater.
- Wi-fi – erbyn hyn mae band eang cyflym iawn yn yr Ystafelloedd Coco, diolch i arian gan Lywodraeth Cymru drwy'r Cyngor Sir. Bydd hyn ar gael i bawb ei ddefnyddio ar ôl cadarnhau'r trefniadau priodol i fynd i mewn i'r adeilad.
- Cytunodd y cynghorwyr i gymryd rhan mewn ymarfer dewch i adnabod eich cynghorydd ar gyfer *Llais Llandyrnog*.
- Mae cais wedi dod i wella'r fynedfa i Gae Nant. Efallai y gellid cynnwys y cwestiwn hwn yn yr arolwg o anghenion y gymuned.

**Cynllunio**

Trafodwyd tri chais:

- Tan Dderwen – Rhif cais 18/2022/0787: codi estyniadau ac addasiadu i'r annedd a garej newydd
- Cae'r Fedwen – 18/2021/1031: Newid defnydd o dir i safle pum uned pod gwyliau
- Glan y Wern Farm – 18/2022/0612: cadw adeilad amaethyddol a ffurfio manège.

Adroddiad o'r hyn a drafodwyd yw'r uchod, nid y cofnodion swyddogol. Mae cofnodion llawn pob cyfarfod ar wefan y cyngor cymuned, www.llandyrnogcommunitycouncil.co.uk.

Yn yr Ystafelloedd Coco bellach mae band eang cyflym iawn ar gael i rywun sy'n dymuno ei ddefnyddio at bwrpas gwaith neu ymchwil ayb. Os oes gan rywun ddiddordeb mewn defnyddio'r cyfleusterau gwych yma, cysylltwch efo Bryn ar rbrynd1@gmail.com. Does dim trefn benodol yn ei lle eto – y cam cyntaf ydi hwn i hyrwyddo'r defnydd a gweld be ydi'r diddordeb ynddo.

# Atgofion am sioe flodau a chynnyrch Llandyrnog

Mae f'atgofion cyntaf o'r Sioe yma yn ystod cyfnod diwedd y Rhyfel Byd (Yr Ail Ryfel Byd dwi'n prysuro i gadarnhau!). Yr adeg honno, dw i'n cofio bod y Sioe, yn ogystal â bod yn Sioe Flodau, yn Sioe Amaethyddol, a'r Ffermwyr lleol yn cystadlu mewn gwahanol ddosbarthiadau fel y *Mangels* a Swej, neu yr ysgub orau o ŷd.

Yr amser hynny, doedd amaethwyr ddim yn arbenigo cymaint â maen nhw heddiw. Er enghraifft, pan oeddwn i'n hogyn bach yn byw yn Fron Gelyn, roedd yna wartheg godro (Shorthorn), gwartheg eidion, defaid ac ychydig foch, ieir dodwy a chywion ar gyfer y Nadolig. Yn wir, roedd y cyfnod cyn Dolig yn amser prysur iawn am fod fy rhieni hefyd yn gwerthu ffowls ar gyfer y cinio mawr! Mae gen i atgofion o fy modryb a chymdogion yn helpu paratoi'r cywion. Ar ddiwedd y dydd, mi fydden nhw'n blu mân o'u corun i'w sodlau.

Yr adeg honno, roedd ffowlyn yn rhywbeth reit gostus a phrin iawn ar y bwrdd heblaw am yr Ŵyl Fawr.

Doedd dim trydan, ffôn, tractor na char gennym ni, ac yn naturiol roedd pawb yn ddibynnol iawn ar y ceffylau gwedd – dyna beth oedd *horsepower* y cyfnod! Fe fyddai tyfu cnwd da o geirch yn bwysig iawn i fodloni'r wedd a'i chadw'n iach.

Mae gen i atgof o weld ceffylau gwedd yn y Sioe, oedd yn cael ei chynnal yr adeg honno ar gae Pen Palmant ger yr hen ffatri laeth, gyda phabell fawr ar gyfer y blodau ac yn y blaen.

Roedd y Stoc Fferm yn cael eu dangos yn yr awyr agored mewn corlannau bach neu wedi eu clymu wrth bolyn.

Mae gen i atgofion fod fy nhad yn gefnogol iawn o'r Sioe ac yn awyddus iawn i gystadlu yn yr adran Amaethyddol. Roedd Fron Gelyn ddim ymhell o ddwy filltir o'r Sioe ac rydw i'n cofio ei helpu i gerdded heffer laeth yr holl ffordd – wrth gwrs doedd bron ddim traffig yr adeg yna. Ni chofiaf beth oedd y canlyniad ond dyna ni – y cystadlu oedd yn bwysig!

Roedd cerdded stoc ar hyd y ffyrdd tawel yn gyffredin iawn yr adeg hynny. Fferm anghysbell oedd Fron Gelyn – braidd ymhell o bobman, ar lethrau Bryniau Clwyd. Doedd hi ddim yn fferm lawr gwlad, felly arferai fy nhad rentu weirglodd dros yr haf ar lan yr afon Clwyd wrth Glan y Wern. Mi oedd yn dipyn o drafferth symud stoc yn y gwanwyn a'r hydref o un lle i'r llall.

Diolch i'r drefn roedd ein cymdogion bob amser yn barod i helpu cerdded y gwartheg i lawr y lonydd culion a thrwy ganol pentref Llandyrnog. Fel arfer swydd gyda'r nos oedd hon oherwydd bod ein cymdogion – tebyg i Gwilym a'r diweddar Hywel Evans oedd yn byw ar y pryd yn Fron Yw – ar gael ac yn barod iawn eu cymwynas.

Roedd trigolion y Pentref hefyd yn dod allan i gynnig helpu neu efalle gwneud yn siŵr bod y gwartheg yn mynd y ffordd iawn!

*Rod Williams*





Erbyn y chwedegau, roedd ochr amaethyddol y Sioe wedi mynd ac roedd hi bellach yn amser 'Carnifal' a chynnyrch gardd, a blodau.

# Diwedd cyfnod

Ddydd Iau, Medi 8, cyhoeddodd Palas Buckingham y newydd trist fod y Frenhines Elizabeth II wedi marw'n dawel yn Balmoral, yn 96 oed. Dau ddiwrnod ynghynt, cyflawnodd ei dyletswydd gyfansoddiadol gyhoeddus olaf, drwy benodi'r pymthegfed Prif Weinidog yn ei theyrnasiad. Roedd hi'n Frenhines ar y Deyrnas Unedig, 14 o wledydd y Gymanwlad ac yn bennaeth ar Eglwys Loegr.

Ganed Elizabeth Alexandra Mary ar 21 Ebrill, 1926 yng nghartref ei thaid yn Llundain, ac etifeddodd y Frenhiniaeth ar ôl marwolaeth sydyn ei thad, George VI, ar 6 Chwefror, 1952 a hithau ddim ond yn 25 oed.

Teyrnasodd am dros 70 o flynyddoedd – y teyrnasiad hiraf yn hanes y Frenhiniaeth. Gwnaeth hynny gydag urddas a enynnodd barch miliynau o bobl ledled y byd.

Cafodd ei gwneud yn aelod o Orsedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1947 a hi agorodd Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd yn 1971. Y Frenhines hefyd agorodd y Cynulliad newydd yng Nghymru yn 1999 – mynychodd bob seremoni agoriadol y Senedd hyd at ei hymweliad olaf yn 2021.

Cofir y Frenhines am ei ffydd gadarn, ei dyfalbarhad, a'i hymrwymiad gydol oes i wasanaeth cyhoeddus.

Cydymdeimlwn yn gywir iawn â'r Teulu Brenhinol.

## Bore Coffi

Brownies

**Dydd Sadwrn, 8 Hydref**

**10 tan 11.30 y bore**

**Tuag at goffrau Brownies Llandyrnog**

**Fe gewch chi de, coffi a raffl a bydd yno nifer o eitemau ar werth a gemwaith wedi'i adnewyddu.**

**Dewch yn llu i helpu i gefnogi uned leol y Brownies.**

# Tuesday Club




Y siaradwraig wadd oedd Jackie Knight o Landyrnog sy'n gwneud gemwaith pewter.

I ddechrau, rhoddodd hanes ei thad, Bernard Butler, a'i waith yn trin pewter. Dysgodd ei grefft yn Hockley, ardal gemwaith Birmingham. Yn 1988 symudodd ei thad â'r teulu i Ruthun a chafodd stiwdio yn y Ganolfan Grefftau. Symudodd Jackie i Ogledd Cymru o Kent ddeng mlynedd yn ddiweddarach, i'r Rhyl i ddechrau ac wedyn i Landyrnog. Daeth i helpu ei thad yn ei weithdy a oedd yn ei gartref erbyn hynny ac yn raddol dysgodd Jackie y grefft o wneud ei gemwaith ei hun. Mae hi'n mynd i ffeiriau a marchnadoedd i werthu ei gemwaith, ac yn ymweld â chanolfan grefftau Afonwen yn achlysurol. Bydd yno 4–7 Hydref, yn ychwanegu at ei chasgliad ac yn sgwrsio â'r ymwelwyr. Mae Jackie hefyd yn trwsio gemwaith.

Rhoddodd ychydig o hanes pewter hefyd, sydd wedi'i ddefnyddio ers cyfnod y Rhufeiniaid. Dangosodd Jackie rai eitemau roedd ei thad wedi'u gwneud, ac offer y mae hi'n ei defnyddio.

Cafwyd paned a sgwrs, tynnwyd y raffl a dymunwyd yn dda i Gwilym ar ddathlu ei ben-blwydd. Bydd y cyfarfod nesa 19 Hydref – croeso cynnes i aelodau newydd.

# Diolch gan Gadeirydd y Sioe

Bellach, mae sawl wythnos wedi pasio ers i'r sioe flynyddol gael ei chynnal, ac roedd hi'n sioe ardderchog eleni eto. Ar ôl bwlch o ddwy flynedd roedd hi'n anrhydedd dod at ein gilydd fel tîm i drefnu'r diwrnod arbennig hwn unwaith eto.

Pan gychwynnom ni'r broses gynllunio, roedd Cofid yn codi ei ben hyll, ac roedd ansicrwydd yn ein meddyliau, ond penderfynu mynd amdani wnaethom ni. Roeddem ni'n teimlo y byddai mwy o ofod yn ddewis diogelach a phenderfynu hurio pabell fawr. Byddai hyn yn ein galluogi i arddangos yr holl ffrwythau, llysiau a blodau ar wahân i'r gwaith crefft, coginio ayb.



Profodd yn fuddiol iawn – cawsom fwy o ofod i osod mwy o gadeiriau yn y neuadd ac roedd hyn yn boblogaidd iawn. Roedd hurio'r babell fawr yn costio, ond trwy haelioni pobl dda Llandyrnog, roedd yna elw bach ar ôl talu amdani.

Gwnaeth sawl un sôn am ansawdd yr arddangosion eleni, ac ar ein rhan ni i gyd, hoffwn ddiolch i bawb a aeth i'r drafferth i gystadlu a sicrhau bod yna sioe dda. Mae'n glod i chi gyd.

Ond roeddem ni'n siomedig yn nifer yr ifanc fu'n cystadlu. Maen nhw mor allweddol i sioeau'r dyfodol, yn wir i'r holl bentre'. Felly'r flwyddyn nesa', anogwch ein hieuenctid i ddarllen y cystadlaethau a chymryd rhan os gwelwch yn dda – byddan nhw'n mwynhau'r profiad.

Rydym ni'n cynllunio ar gyfer cael dosbarthiadau newydd cyffrous i'r bobl ifanc y flwyddyn nesa, felly gwyliwch y gofod yma!

Penderfynom ni beidio â chael noddwyr ar gyfer cystadlaethau unigol eleni, ond dywedodd rhai pobl y basen nhw'n hoffi parhau gyda'r traddodiad – byddwn yn trafod hyn yn ein cyfarfod cyntaf.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb fu ynghlwm â'r sioe eleni. Roedd yn braf eich gweld yn cydweithio fel tîm i sicrhau llwyddiant y digwyddiad arbennig hwn yng nghalendr Llandyrnog.

Diolch o galon,  
John Rowlands (*Cadeirydd*)

# Cystadleuaeth yr ardd orau

Enillwyr y gystadleuaeth eto eleni oedd Richard ac Iona Davies, Hafod y Bryn. Y wobr oedd taleb werth £30 i'w gwario mewn canolfan arddio.



Yn ail agos iawn oedd gardd Rachel Major, Llawog. Llongyfarchiadau i'r tri ar eu gerddi hyfryd.

